

GALARNAD TAD

AR OL EI

UNIG FAB,

SEF

Y CADBEN THOMAS EVANS,

CEINWYDD, CEREDIGION,

*Yr hwn a foddodd yn ymyl y làn ger East London,
South Africa, Awst 6, 1876, yn 30 oed.*

PRIS TAIR CEINIOG.

Cyhoeddedig er budd i Weddw yr Awdwr.

ABERTEIFI:

ARGRAFFWYD GAN J. C. ROBERTS, YN SWYDDFA
YR "OBSERVER."

BYR-GOFIANT.



GANWYD gwrthddrych y farwnad ganlynol yn Glandwr, Llwyndafydd, ger Ceinewydd, ar y 3ydd dydd o Fawrth, 1846. Derbyniodd ei addysg yn benaf yn ysgol Castell Caerwedros, gyda Mr. J. Williams, (yn awr y Parch. J. Williams, B.A., gweinidog y Bedyddwyr yn Hereford); a bu hefyd dros dymhor yn Aberaeron, yn ysgol y diweddar Barch. D. Evans, Ffosyffin. Derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys Fethodistaidd yn Pensarn pan yn ieuanc iawn, a bu yn addurn i grefydd ar hyd ei oes fer.

Prentisiwyd ef gyda Capt. Davies, o'r *brig Hetty Ellen*, o'r Ceinewydd, yn 1860, gyda'r hwn y bu am saith mlynedd, a phasiodd yn *second mate* yn Mehefin, 1863, ac yn *first mate* yn Mehefin, 1865. Yn ystod yr amser yr oedd gyda Capt. Davies, bu am fordaith i'r afon Zambesi, ac yn aros am wythnosau gyda Dr. Livingstone. Difyr ac addysgiadol ydoedd gwrando arno yn adrodd yr hyn a welodd yn y lle hwnw. Yn Mai, 1868, pasiodd yn gadben yn Bristol. Chwefror 10fed, 1869, priododd yn nghapel Netherfield-road, Liverpool, â Miss Elizabeth Thomas, o'r Ceinewydd, o'r hon y cafodd ddau o blant. Yn 1870, penodwyd ef yn llywydd ar y *brig Derby* gan y perchenog (Mr. Davies, Cwmafon, Morganwg), a bu yn llwydd-

ianus iawn ynddi am bum mlynedd. Dechreu y flwyddyn ddiweddfaf, cafodd ei benodi gan yr un boneddwr yn feistr ar long newydd—y *barque Emily A. Davies*—a hwyliodd ynddi i Cape Colony.

Ar y 6ed o Awst, 1876, daeth galwad am feddyg i un o'r llongau oedd yn angori allan ar y môr gyferbyn âg East London, South Affrica. Yr oedd ei long yntau yn eu mysg. Aeth ef, ac amryw gadbeniaid ereill, i hebrwng y meddyg i dir; ond pan yn ymyl y lân, dymchwelodd y cwch, a boddodd ehwech o'r pymtheg oedd ynddo, sef un o Lanon, un o Aberaeron, y meddyg, dau Sais, ac yntau. Bu y rhai a achubwyd mewn enbydrwydd mawr. Cafwyd ei gorph, a chyrph rhai o'r lleill, a chladdwyd hwynt yno. Rhagluniaeth y nef fyddo yn drugarog wrth ei weddw, ei amddifaid, a'i fam alarus ac unig.

Pan dderbyniodd ei dad y newydd trist tua diwedd Medi, aeth yn isel iawn ei ysbryd, ac ar y 10fed o Ionawr, 1877, tarawyd ef gan y parlys. Ar ol dihoeni am ddeuddeg wythnos, bu farw dydd Gwener y Grog-lith, yn 59 mlwydd oed. Cyfansoddodd y penillion canlynol gan mwyaf yn ystod ei gystudd, ac ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth adroddodd hwynt wrth ddyn ieuanc oedd yn eistedd yn ei ystafell.

Dymunir ar y darlennydd i gofio iddynt gael eu cyfansoddi dan deimlad hiraeth dwys, ac i beidio bod yn feirniadol wrth eu darllen. Gallesid yn hawdd gywiro ambell air a llinell, ond nid allai eu dwyn i fwy o gywirdeb a chywreindeb lai nag anafu y teimlad.

YR ALAREB.

☉ ! fy unig blentyn anwyl,
P'odd y syrthiaist ti i'r môr ?
Ai rhyw ddamwain neu ddygwyddiad
Ydoedd hyn, neu drefniad Iôr ?
O ! mor dywyll ydyw'r cwmwl,
A oes goleu oddifewn ?
Boddi Captain 'n ddeg-ar-hugain
Yn yr eigion ger Cape Town.

A fyrhâwyd dim o'th ddyddiau
Gan y tônau mawr eu grym ?
Ynte dyma drefn y Nefoedd,
Nad yw byth yn gwyro dim ?
Buost yn Zambesi River,
Gydâ Doctor Livingstone,
Mewn peryglon mwy, feddylwn,
Na phan 'ro'et ar fin y don.

Ce'st dd'od 'nol yn iach oddiyno,
Atom ar dir Gwalia wên,
Morio wed'yn am flynyddau,
A haul llwyddiant uwch dy ben ;
Darfu it' groesi Môr y Werydd,
Trwy beryglon lawer gwaith,
O ! mor syn yw gorfod meddwl
Mai mân y don fu pen dy daith.

Gwnest ymlwybro trwy beryglon,
 Pan yn marchog brig y dôn,
 Môr yn chwyddo fel mynyddau,
 Pan yn *roundio* y Cape Horn ;
 Llong yn disgyn lawr i'r dyfnder,
 Esgyn wed'yn fry i'r nen,
 Ce'st dy gadw'n ddyogel yno,
 'Nawr fe ddaeth dy daith i ben.

O ! mor ddyrys trefn Rhagluniaeth,
 Yn marwolaeth ambell un ;
 Tori ymaith y defnyddiol,
 Ar ol iddo ddod yn ddyn :
 Ti ge'st ddysg, a dawn, a medr,
 Llestr parod gyda hyn,
 Pob peth oeddynt yn ymddangos
 Dy fod ti'n dringo ael y bryn.

Ond yn nghanol tég obeithion,
 Dyma newydd prudd yn dod,
 I ti'n sydyn golli'th fywyd,
 O ! mor chwyrn y trodd y rhôd :
 Y boreu'n wisgi yn dy lestr,
 Llawn o fywyd, llon dy wêdd,
 Cyn yr hwyr 'ro'et wedi boddi,
 Heddyw'n ieuanc yn dy fedd !

Rhai 'n cael morio hyd yn dri'gain,
 Ugain eilwaith ar y lân,
 Nes mae'u hoes yn boen a blinder,
 Cyn i'w cyrph gael pridd y Llan ;
 Torodd angeu *dithau* ymaith,
 Cyn it, gyrhaedd canol oes,
 Fel blodeuyn y glaswelltyn,
 Wedi gwywo cyn y nos.

Ddoe â'r olwg yn obeithiol,
Heddyw'n annymunol iawn,
 Pob rhyw fwriad wedi d'rysu,
 Cyn tywyniad haul dy nawn ;
 Meddwl *roundio* rhanau o'r India,
 'Nol i Gymru eto'n glyd,
 Yn dy lestr gyda'th lwyddiant,
 Heb un methiant yn y byd.

Ond nid felly trodd hi allan,
 Mawr y gruddfan hedyw'n wir,
 Darfu i ti gollith fywyd
 Rhwng y tônau ger y tir ;
 Mae fy meddwl bron a d'rysu,
 Dagrau yn ymdreiglo sy',
 Wrth fyfyrrio am y foment
 Darfu it' syrthio yn y lli'.

Gado'th long yn iach a heinyf,
Crew i'th aros 'nol i gyd,
 Tithau mewn rhyw enyd fechan
 Yn yr annherfynol fyd !
 Nid oedd yno'r un berthynas
 I roi cymhorth it' rhag cam ;
 Ond gobeithio cefaist Geidwad
 Gwell na phriod, tad, na mam.

Un oedd abl i gynorthwyo
 O fewn bwlech cyfyngder caeth,
 A gofalu am dy ysbryd,
 Rhwng y tônau ar y traeth
 Ynddo y ceir nerth i'r egwan,
 A wna brudd-der angeu'n llon,
 Gan ddwyn enaid o'r eiddilwch,
 I'r hyfrydwch ger ei fron.

Gan dy fod yn medru nofio,
 P'odd dygwyddodd hyn i ti?
 O! na chawn i ryw wybodaeth
 Am y dull a'r modd y bu:
 A wnaeth rhywun 'maflyd ynot,
 I dy *rwystro* di i'r lân?
 Ynte dyma drefn yr Arfaeth,
 Wedi marcio'r dull a'r fan.

Ofer dysgwyl 'nawr atebion
 Am ryw droion chwerwon sŷn,
 Aros raid a bod yn dawel,
 Fe geir "gwybod ar ol hyn"—
 Yn y dydd y teflir goleu
 Ar ddirgelion sydd dan lèn,
 Gwelir fod y cwbl yn uniawn,
 A'r orseddfainc fawr yn wèn.

Uwchlau rheswm, croes i deimlad,
 Ydyw ffyrdd yr uchel Iôr,
 Mae ei lwybrau yn y corwynt,
 A'i, stafelloedd yn y môr;
 Eang, manwl ei lywodraeth,
 Dros bob peth sydd dan y nef,
 Nid oes dim yn dygwydd isod,
 Nad yw dan ei sylw ef.

Iechyd, llwyddiant, bywyd, angeu—
 Y mae'r cyfan yn ei law,
 Fe sydd ben ar bobpeth yma,
 Hefyd yn y byd a ddaw;
 Peidio grwgnach, doethach tewi,
 O dan droion "Un yr Dri,"
 Fe all heri lles a bendith,
 Trwy beth chwerw iawn i mi.

Ond mae hiraeth ar fy llethu,
 Nes rhoi'm hysbryd yn y pair,
 Meddwl na chaf yma'th weled
 Byth, na'th glywed yn d'weyd gair ;
 O ! r fath bleser oedd dy lythyr,
 'Nol ei gael o'r India draw,
 Llamu'r oeddwn gan lawenydd.
 Pan y gwelwn ôl dy law.

Ynddo caid pob hanes cyflawn
 Am dy dywydd ar y môr,
 'Roedd yn llawn o ddirifoldeb,
 A gwybodaeth ynddo'n 'stôr ;
 Mwyach nid oes obaith imi
 Gael un linell o dy law,
 Hyny sydd yn tori'm calon,
 Ac yn llanw'm bron â braw.

Mae dy fysedd wedi rhewi,
 Tewi wnaeth y tafod ffraeth,
Darfu pob gohebiaeth rhyngom
 Er pan syrthiaist ar y traeth ;
 O ! mor hoff, ac O ! mor anwyl,
 'Ro'et ti gan dy dad a'th fam,
 Mawr y gofal wrth dy fagu,
 Na wnai undyn â thi gam.

Bachgen ufudd, doeth, a diwyd,
 'Ro'et yn gynar yn dy ddydd ;
 O ! mor anhawdd ydyw credu
 Dy fod heddyw yn y pridd :
Colled fawr i'r plant a Liza,*
 Heblaw *galar* dirfawr, dwys,
 O roi tad a phriod tirion
 Mewn tyn gloion dan y gwys.

* Ei briod.

Un gofalus am ei deulu,
 Un oedd hoff o'i wraig a'i blant,
 'Ro'ent yn agos at ei galon,
 Gartref, neu pan fyddai bant ;
 Heddyw undeb wedi ei dori—
 Undeb anwyl iawn yn wir,
 O ! ddiwrnod du, cymylog,
 Dim ond adfyd poen a chur.

Duw fo'n Dad i'r plant amddifaid,
 Ac yn Farnwr doeth i'r fam,
 I'w hamddiffyn a'u dyogelu,
 Yn yr anial, rhag cael cam ;
 Tebyg cofia Jenkin Thomas *
 Am ei dad tra paro'i ddydd,
 Eliza Anne* ni chaiff ei weled
 Hyd yr adgyfodiad ddydd.

Nawdd y Nef fo ar ei deulu,
 Ac arweiniad Brenin hedd,
 Hyd nes cyrhaedd yn ddihangol
 Ato i'r ochr draw i'r bedd :
 Trwm i mi a'th fam yw tramwy
 Y Ceinewydd yma 'thraw,
 Heb un gobaith cael dy weled,
 Na chael mwyach ysgwyd llaw.

Mae dy gorph yn tawel orphwys
 O fewn rhandir Affric bell ;
 O ! mae'm gobaith fod dy enaid
 Fry yn ddedwydd mewn 'gwlad well,'
 Byth ni chaiff dy hoff berth'nasau
 Ddim un cyfle'i wel'd dy fedd,
 I roi careg neu flodeuyn
 Arno'i harddu peth o'i wedd.

* Ei blant.

Engyl fyddo'n gwylio'r twmpath,
 A'r hen briddell sydd yn garn,
 Hyd nes daw dy gorph i fyny
 Foreu rhyfedd ddydd y farn ;
 Dyma'r boreu 'rwy'n gobeithio,
 Cawn i gwrdd yn hardd ein gwedd,
 O fewn undeb yr un teulu,
 Wedi gadael gwisg y bedd.

Cael cyd-fyw, a chyd-glodfori,
 Yn y tragwyddoldeb draw,
 Wedi gadael awyr daear,
 'Mewn i fro lle na ddaw braw ;
 Anwyl fab, rhaid ymdawelu,
 A llonyddu yn y llwch,
 Peidio ymladd â'r gwynt a'r tò'nau,
 A dymchweliad chwyrn y cwch.

Er mai chwerw ydyw'r galar,
 Ar y ddaear is y nen,
 Amlwg yw fod pob damweiniaeth
 Dan lywyddiaeth doeth ein Pen :
 Twrf y môr, y 'storm, a'r gwyntoedd,
 A rhuadau cryf y dòn,
 Fyth wnant aflonyddu'th feddwl,
 Na dwyn dychryn i dy fron.

Anwyl Thomas, hûn yn dawel,
 Yn dy lwydaidd anedd laith,
 Ebrwydd byddwn ninau yma
 Wedi cyrhaedd pen y daith :
Ti yn huno'n mhell yn Affric,
 Ninau'n mynwent laith Pensarn,
 Cawn ddiuno a chydgodï,
 Wrth sain udgorn mawr y farw.

Cryf ei gôf, gan adrodd pregeth,
 Cryf mewn difeth gariad dwys ;
 Ac yn herwydd cryfder hiraeth,
 Mae'i ragoriaeth dan y gŵys.

Y mab yn Affric aeth o'u gafael,
 Y tad yn Nghymru'n wael ei lun ;
 Er pellerau rhwng eu beddau,
 Mae'u heneidiau heddyw'n un :
 Gŵyl y Groglith 'hedodd Dafydd
 I lawenydd nefol lôg,
 Ni wêl yno ball na blino
 Byth ar gryno Lith y Grôg.

Blodau coron dêg cymdeithas
 Gwypant dan angeuol chwyth,
 I'w cyfuno draw'n bereiddiach,
 Yn anwylach, a thros byth ;
 Yma syrthio maent, gan wywo,
 Ffoi, a brysio bob yr un,
 Ond ni wywant byth y'nghyson
 Goron dirion Mab y Dyn.

Thomas Evans, o'r Ceinewydd,
 Oedd yn llywydd rhwydd a llon,
 Gydâ'i dad, ni cha'n dragywydd,
 Oddef tywydd tir na thôn ;
 Gwleddant heddyw mewn hedd diddig,
 A gosgeddig yw eu gwawr,
 Hyfryd iddynt yw brwdfrydig
 A gwèn fiwsig y gân fawr.

Yn y Wasg, ac a Gyhoeddir yn fuan,
PRIS SWLLT,
COFIANT A GWEITHIAU

Y DIWEDDAR

MR. T. WEDROS EVANS, C.M.,

DAN OLYGIAETH

*Hwfa Môn, Parch. E. Evans, Pennant, Mr. John
Thomas, Blaenamerch, ac ereill.*

Danfoner pob archebion i'w fam—Mrs. ESTHER
EVANS, Rhydan-fach, New Quay, R.S.O., Cardigan-
shire.

J. C. ROBERTS,
ARGRAFFYDD A LLYFR-RWYMYDD,
SWYDDFA'R "OBSERVER,"

RHIF 1, LON EBEN, ABERTEIFI,

WRTH ddychwelyd ei ddiolchgarwch gwresocaf i'r
Cyhoedd am y gefnogaeth helaeth y mae wedi
dderbyn er pan agorodd ei Swyddfa yn y lle, a-ddy-
muna hysbysu ei fod yn abl gwneyd pob math o waith
Argraffu yn y modd destlusaf, ar rybudd byr, ac am
brisiau rhesymol.

✉ Telir sylw manwl i archebion a ddanfônir gyd
â'r Post.